Cyfarfu'r Cyngor Cymuned yn Neuadd Santes Ursula, Gorffennaf 20 2017

Presennol : Fred Jones, Islwyn Jones, Huw Griffith, Dylan Davies, Lyn Davies.

Nodwyd bod Dylan Davies Esgair Llyn wedi cytuno i gael ei gyfethol ar y Cyngor Cymuned. Croesawyd ef i'r cyfarfod ac arwyddodd ffurflen derbyn swydd.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mehefin ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Gohebiaeth
Gwybodaeth am y Pwyllgor Rheoli Datblygu a chopi o Clercs and Councils Direct.

Ffurflenni wrth y Cyngor Sir ynglŷn â threuliau'r cynghorwyr adeg yr etholiad.
Cafodd y rhain eu llenwi a'u harwyddo a'u dychwelyd

Yr archwiliwr allanol wedi gofyn am ragor o wybodaeth
1 eglurhad pam bod rhywun gwahanol wedi arwyddo'r ffurflenni ariannol eleni
2 angen copi o fonion y sieciau'n dangos taliadau'r clerc
Rhoddwyd ymateb boddhaol i'r ddau ymholiad.

Ymgynghoriad ynghylch cau Cartref Bodlondeb. Derbyniwyd poster yn hysbysebu cyfarfod cyhoeddus ar 17 Gorffennaf. Teimlwyd y dylid dangos bod cylch y diddordeb ac effaith unrhyw benderfyniad yn ehangach nag ardal Aberystwyth yn unig, a gofynnwyd i'r clerc lanw'r holiadur.

Derbyniwyd dogfennau a holiadur oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â Thrawsnewid Gwasanaethau Clinigol ac hefyd Drawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Penderfynwyd gofyn am help rhywun â mwy o wybodaeth am y maes wrth lanw'r holiadur.

Derbyniwyd, er gwybodaeth, nifer o e-byst, ynglŷn â Chynllun Rheoli Cynaliadwy, Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru, hyfforddiant ar Ddeall y Gyfraith, Ymgynghoriad ar Gôd Diwygiedig Trefniadaeth Ysgolion, gweithdy'r Llywodraeth ar Waredu Daearegol.

Wedi gofyn eto i'r Adran Briffyrdd i glirio'r draeniau i lawr at Bethel a'r grid ger Troedyfoel a'u hatgoffa am yr arwyddion cyflymder drwy'r pentref. Cafwyd ateb fod arwyddion newydd wedi eu harchebu

Ariannol.
Cyfrif banc rhif 2 yn dangos bod arian o'r fferm wynt a chronfa Llety'r Bugail wedi talu mewn – cyfanswm nawr yn £26,101.48 Cafwyd peth trafodaeth ar beth i'w wneud â'r 20 mil ond dim penderfyniad.
Cyfrif cyfredol yn £2,320.26
Awdurdodwyd talu bil trydan £42.21, a £200 cyflog y clerc ddiwedd y mis.

Unrhyw fater arall

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd goleuadau rhybudd ysgol yn gweithio o hyd. Cytunwyd i edrych ar hyn eto ar ôl i'r ysgol ail-ddechrau.
Codwyd mater y wal sydd wedi cael ei niweidio ar waelod llwybr yr ysgol. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach i weld a ellid darganfod pwy oedd yn gyfrifol a phwy ddylai ei gyweirio.

Dyddiad cyfarfod nesaf Medi 21